

Iechyd Meddwl Dau Begynol – David Williams

Tydi gwleidyddiaeth yn ddau begynol? Tydi Cymru yn ddau begynol d'wedwch?



Peidiwch â gofidio, dwi ddim yn un o rhain sydd yn deud fy mod i yn dipyn bach yn bipolar, neu OCD. Mae gen i'r cyflyrau yma ac mae hynny yn ffaith, wel yn ôl y Seiciatrydd beth bynnag a beth mae hwnna yn gwybod?

Beth sydd gynnai yn y blog post yma ydi theori fach sydd wedi bod yn cynhesu yn yr isymwybod am gyfnod. Y theori ydy bod unigolion, oni bai ei fod nhw yn lwcus neu yn graff, yn gallu amlygu symptomau'r wlad maent yn byw ynddyn nhw. Mae o yn ffaith bod Cymru yn wlad dau begynol yn llythrennol ddaearyddol. Gogledd a De. Fel bob gwlad arall fuasech yn dweud. Wel ia, ond mae 'na rywbeth unigryw am sefyllfa Cymru. Unai dych chi'n Gog neu Hwntw. Yn yr Alban, y Canolbarth sydd yn teyrnasu gyda Glasgow a Caeredin ond yng Nghymru gyda phob parch i'r Canolbarth, mae hwn yn tueddi fod yn le i chi yn mynd trwyddo i fynd o'r Gogledd i'r De. **I'r Ddau Begwn.**

A beth am ddwyieithrwydd? Ydy hwnna ddim yn ddau begynol? Mae bod yn ddwyieithog yn siwtio rhai ond dydy o ddim yn siwtio fi. Fasa well gen i tasa dim ond un iaith gen i, Ffrangeg efallai. Mae hwn yn dipyn o 'naid ffydd' neu '*leap of faith*' ond dwi'n teimlo fod byw a bod yng Nghymru wedi creu'r cyflwr ddaubegynnol ynddai. Os nid creu, **cryfhau**. Mae'r cyflwr yn gwneud i chi fod yn amhendant am bethau megis eich rhywioldeb a beth ydych chi yn mynd i gael i ginio. Gyda OCD yr elfen o berffeithrwydd yma sydd wedi treiddio i lawr o eich magwraeth capel. Yr Hen Gorff yn ysgwyd ei breichiau a'i dyrnau a mynnu eich bod yn ceisio fod mor berffaith â Duw. Dwn'im.

Os dych chi ddim yn Dori mi rydych yn Llafur, os dydych ddim yn Remainer, mi rydych yn Leaver. Mae yna ddewis o ddau ar y fwydlen, cymerwch o neu gadewch o. Mae bywyd yn ddu a gwyn yn gyfreithiol ond yn ymarferol mae o yn llwyd ofnadwy a bob lliw'r enfys yn y canol. Mae cymysgedd o ansicrwydd a pherffeithrwydd ddim yn beth da. Mi rydych yn teimlo eich bod yn perthyn yn limbo land mewn gwlad dau begynol. Na nid y Canolbarth ydi hynny.